



Ysgol Pentreuchaf

98. Polisi Gwisg Ysgol

Nod

Sicrhau fod pob plentyn wedi ei wisgo/gwisgo'n addas i'r ysgol. Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol, sef trywsus du neu llwyd tywyll, crysau polo coch a chrysau siwmpwr lwyd gyda logo'r ysgol arnynt.

Amcanion

Rydym yn cydnabod y gall plant, rhieni, y Corff Llywodraethu, staff yr ysgol a'r Awdurdod Addysg Lleol fod â syniadau gwahanol ynglŷn â'r mater ond rhaid cydnabod nad yw'n gyfreithlon dweud wrth rieni fod yn rhaid i'w plant wisgo dillad penodol, ac ni fedrir eu gorfodi. Wedi dweud hyn, rydym yn annog y plant a'r rhieni i yrru eu plant i'r ysgol yn y wisg ysgol swyddogol.

Canllawiau

1. Disgwylir i'r plant fod wedi eu wisgo'n drwsiadus mewn dillad sy'n addas i'w wisgo i'r ysgol.
2. Ni chaiff unrhyw blentyn wisgo esgidiau â sodlau uchel na rhai gydag olwynion arnynt i ddod i'r ysgol oherwydd materion iechyd a diogelwch, a'r angen iddynt fod yn 'blant' sy'n medru rhedeg, dawnsio a.y.y.b.
3. Caniateir i'r plant, yn ferched a bechgyn, wisgo clustdlysau 'studs' ond dim cylchoedd na chlustdlysau sy'n hongian.
4. Rhaid i athrawon sicrhau fod disgyblion yn wisgo dillad addas i weithgareddau Addysg Gorfforol, a bod y dillad hynny yn ddiogel. Mae gan athro hawl i wrthod i ddisgybl gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd os nad oes ganddo/ganddi wisg ac esgidiau addas.
5. Nid oes gan yr ysgol hon unrhyw reolau ynglŷn â gwallt plant – lliwio, ffordd o'i dorri a.y.y.b oherwydd mae hyn yn galluogi plentyn i fynegi ei gymeriad, ac mae ffasiynau yn newid o ddydd i ddydd!
6. Yn achlysurol, bydd gofyn i blant (yn ferched a bechgyn) glymu gwallt hir a gwisgo goglau – mewn gwrs Dylunio a thechnoleg er enghraifft.
7. Gofynir i'r plant wisgo'r wisg swyddogol i gyngerdd, Eisteddfod yr Urdd.
8. Gofynir i rieni sicrhau fod enwau eu plentyn/plant yn glir ar bob eitem o ddillad, yn enwedig cotiau a siwmpwr – heb enwau, mae'n amhosibl i ni ddarganfod pwy biau dillad sydd wedi mynd ar goll.
9. Sicrheir na fydd camwahaniaethu yn erbyn unrhyw blentyn o ran gofynion crefyddol, hil, lliw, ethnigrwydd na chenedligrwydd o ran gwisg, yn unol â Deddf Cydraddoldeb Hiliol 1976.
10. Mae'n angenrheidiol i bob aelod o staff wisgo gwisg sy'n addas iddynt gan eu bod yn gweithio gyda phlant. Ni ganiateir iddynt wisgo blows neu grys T sy'n isel ac yn dangos eu bronau, nac ychwaith sgert fer, na throwsus sy'n gorwedd yn rhy isel o amgylch y wasg. Dylai athrawon wisgo dillad addas hefyd pan fyddant yn ymweud â gweithgareddau Addysg Gorfforol.

Casgliad

Mae gwisg ysgol yn sicrhau nad yw plant yn cael ei trin yn wahanol neu eu heithrio yn ôl eu gwisg, ffasiwn a.y.b. Os yw rhiant yn teimlo na allent fforddio gwisg ysgol, dylent gysylltu gyda'r Pennaeth er mwyn gwneud trefniadau benthyg neu brynnu gwisg ail-law am ostyngiad. Gan mai llais y plentyn sy'n bwysig (Deddf Addysg 2004) byddwn yn rhannu holiadur / holi'r Cyngor Ysgol ynglŷn â gwisg ysgol yn achlysurol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____